

Gwybodaeth i Gleifion Cystosgopi Hyblyg ac Abladiad Trawswrethrol (TULA) Adran Wroleg

Beth yw cystosgopi hyblyg a TULA?

Mae hon yn weithred i archwilio tu mewn i'ch wrethra (pibell ddŵr) a'ch pledren gan ddefnyddio offeryn telesgopig (cystosgop hyblyg). Yn ystod y cystosgopi, gellir tynnu ardaloedd annormal o fewn y bledren gan ddefnyddio laser (gelwir hyn yn abladiad laser trawswrethrol neu TULA). Mae ffibr laser main yn cael ei basio trwy'r cystosgop ac mae meinweoedd annormal yn cael eu dinistrio.

Pam mae angen y weithred hon arnaf?

Gellir argymhell y weithred os yw'ch clinigydd yn amau y gallai fod annormaledd y gellir ei dynnu o dan anesthetig lleol, neu fel rhan o wylriadwriaeth yn dilyn triniaeth flaenorol ar gyfer canser y bledren.

A oes unrhyw ddewisiadau amgen?

Gellir perfformio cystosgopi anhyblyg, ond mae hyn yn gofyn am anesthetig cyffredinol neu asgwrn cefn.

Sut ydw i'n paratoi ar ei gyfer?

Gallwch barhau i gymryd eich meddyginiaeth arferol oni bai eich bod wedi cael gwybod fel arall. Os ydych chi'n cymryd asbirin, clopidogrel, warfarin, rivaroxaban, dabigatran (neu unrhyw feddyginiaeth teneuo gwaed arall) yn rheolaidd, gallwch barhau i'w cymryd ar gyfer y weithred hon.

Gallwch barhau i fwyta ac yfed fel arfer.

Gofynnir i chi fynychu'r clinig wroleg a darparu sampl wrin cyn y weithred. Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych am y weithred neu beth fydd yn digwydd wedyn. Fe all y llawfeddyg / nyrs arbenigol eich archwilio. Byddant hefyd yn gwirio bod eich ffurflen ganiatâd wedi'i chwblhau a'i llofnodi.

Beth mae'n ei gynnwys?

Mae'r weithred yn cael ei pherfformio o dan anesthetig lleol. Mae gel anesthetig lleol yn cael ei basio gan ddefnyddio chwistrell i'ch wrethra. Mae'r cystosgop (offeryn telesgopig) yn cael ei basio ar hyd eich wrethra i'ch pledren ar gyfer archwiliad

trylwyr. Mae meinweoedd annormal yn cael eu trin gan ddefnyddio ffibr laser sy'n cael ei basio trwy'r sgop.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Yn dilyn y weithred, byddwch fel arfer yn cael eich rhyddhau adref ar ôl i chi basio wrin yn foddhaol. Dylech allu ail-ddechrau gweithgareddau arferol o fewn 24 awr os ydych chi'n teimlo eich bod yn gallu gwneud hynny.

Beth ddylwn i edrych allan amdano gartref?

Efallai y byddwch chi'n cael rhywfaint o anghysur am hyd at 72 awr – mae hyn fel arfer yn cael ei leddfu trwy gymryd poenladdwyr syml fel parasetamol. Yfwch ddigon o ddŵr i fflysiu'ch pledren.

Gallwch barhau i basio swm bach o waed yn eich wrin am hyd at wythnos wedyn. Mae yna hefyd risg fach o waedu pellach am hyd at 10-14 diwrnod. Mae hyn yn arferol a gallwch ei helpu i setlo trwy yfed digon o hylifau.

Mae risg fach o ddatblygu haint y bledren, a allai fod angen ei drin â gwrthfotigau. Os yw'ch wrin yn mynd yn gymylog ac yn aroglï'n ddrwg, efallai eich bod wedi datblygu haint wrin. Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu a rhowch sampl wrin iddynt i'w brofi.

Os ydych chi'n datblygu twymyn, gwaedu'n gwaethygu, poen ddifrifol neu anallu i basio wrin, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu ar unwaith. Erbyn eich rhyddhau o'r ysbyty dylech gael cyngor am:

- eich adferiad gartref
- pryd i ail-ddechrau gweithgareddau arferol
- manylion cyswllt os oes gennych bryderon ar ôl i chi fynd gartref
- eich trefniadau dilynol, gan gynnwys pryd y byddwch yn cael gwybod am unrhyw ganlyniadau profion.

Os nad ydych wedi cael y wybodaeth hon, gofynnwch cyn i chi fynd adref.

A oes unrhyw risgiau neu gymhlethdodau?

Fel gyda phob gweithred, mae risgiau ynghlwm. Er bod y cymhlethdodau hyn yn cael eu cydnabod, nid yw'r rhan fwyaf o gleifion yn dioddef unrhyw broblemau.

Cyffredin (mwy nag 1 o bob 10 claf)

- Llosgi ysgafn neu waedu wrth basio wrin: Os yw'n bresennol, dylai hyn wella o fewn ychydig ddyddiau. Os yw'n parhau, ymgynghorwch â'ch Meddyg Teulu, gan y gallai fod gennych haint wrin.

Achlysurol (rhwng 1 o bob 10 ac 1 o bob 50 o gleifion)

- **Haint wrin** – os oes gennych deimlad o losgi'n barhaus wrth basio wrin, neu'n teimlo bod gwres arnoch, ymgynghorwch â'ch Meddyg Teulu gan y gallai haint fod yn bresennol, a bydd angen gwrthfotigau.

- **Mewnosod cathetr dros dro** – os yw'r weithred yn ymestyn a/neu waedu yn digwydd, gellir rhoi tiwb cathetr dros dro yn eich pledren ar ddiwedd y weithred. Mae hyn fel arfer yn cael ei dynnu'r diwrnod canlynol.

Prin (llai nag 1 o bob 50 o gleifion)

- **Gwaedu parhaus** – os nad yw'r gwaedu ar ôl y weithred yn setlo, efallai y bydd angen i chi gael eich derbyn i'r ysbyty fel y gellir tynnu unrhyw glotiau o'ch pledren (a gellir serio unrhyw ardaloedd sy'n gwaedu).
- **Tyllu'r bledren** – os yw tiwmor y bledren yn cael ei drin gyda laser, gall tyllu wal y bledren ddigwydd. Fel arfer, mae hyn ond yn golygu y gellir cadw'r cathetr yn ei le am ychydig ddyddiau yn hirach i ganiatáu i'r ardal wella. Fodd bynnag, os yw tyllu'r bledren yn achosi gollyngiad o ddyfrhau'r bledren i'r abdomen, yna mae angen llawdriniaeth agored i atgyweirio'r diffyg.
- **Anaf i'r wrethra sy'n arwain at ffurfio creithiau** – gellir trin hyn yn endosgopig trwy wneud toriad i'r graith wrethrol o dan anesthetig cyffredinol.
- **Cadw wrin** – yn ystod y weithred mae'ch pledren yn cael ei llenwi'n ysgafn â dŵr fel y gellir archwilio pob rhan o'ch pledren. Gall ymestyn y bledren achosi risg fach o gadw wrin. Am y rheswm hwnnw, dylech basio wrin cyn gadael yr adran i sicrhau eich bod chi'n gallu gwneud hynny. Ar ôl rhyddhau, os oes gennych unrhyw broblemau wrth basio wrin, cysylltwch â'ch practis Meddyg Teulu.

A fyddaf yn cael unrhyw sylw dilynol?

Yn dibynnu ar y cyflwr sylfaenol, bydd cynllun dilynol yn cael ei wneud ar eich cyfer chi cyn eich rhyddhau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, dewch o hyd i rifau cyswllt isod ar gyfer y wardiau Wroleg a nyrsys Wroleg:-

Ward Wroleg D 2 Dwyrain

01633 234043 / 234044 (24 Awr)

Adran Cleifion Allanol Wroleg

01633 234979

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Ward Dydd Wroleg

01633 656378 / 656377

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Arbenigwyr Nyrsio Clinigol Wro-Oncoleg

Julie Simpson Louise Broadway

Kathleen Connor-Middleton

01633 238976 (yn dychwelyd negeseuon llais pan nad ydynt ar ddyletswyddau clinigol) Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Nyrs Ymarferydd Wroleg

Laura Reynolds 01633 234758

Dydd Llun – Dydd Gwener Oriau swyddfa
Ymarferydd Gofal Llawfeddygol Wroleg
Jeyanthi Ravi 01633 236054
Dydd Mawrth – Dydd Gwener Oriau Swyddfa

Apwyntiadau cystosgopi hyblyg

01633 234974

Oriau swyddfa Dydd Llun – Dydd Gwener

Ymholiadau Llawdriniaeth/Cyn-derbyniad

01633 234970 / 238568

Dydd Llun - Dydd Gwener

Cyfeiriad:

British Association of Urological Surgeons (2004) Procedure Specific Consent Forms for Urological Surgery

**“This document is available in English/
Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg”.**